

Yr un egwyddor o gofio sydd wrth wraidd yr arfer o wisgo *tephilin* ('ffylacterau') ar gyfer y weddi foreol yn y synagog neu'r cartref. Mewn Iddewiaeth Flaengar, gall pawb dros 13 eu gwisgo, ond does dim rhaid i neb wneud. Mewn Uniongrededd, rhaid i oedolion gwrywaidd 'osod tephilin', ymadrodd sy'n cyfeirio at y ffordd mae'r tephilin yn cael eu rhwymo wrth y corff drwy ddirwyn y ddwy strap yn symbolaidd. Mae'r naill yn cael ei gosod ar y fraich gyferbyn a'r galon a'r llall ar y talcen, gan ufuddhau i Deuteronomium 6: 4-9; 11: 13-21; (dau ddarn cyntaf y Shema) ac Exodus 13: 1-10; 13: 11-16. Mae'r adnodau hyn yn cael eu gosod yn y tephilin, ar sgroliau a ysgrifenydd gan ysgrifennydd cymwys. Mae'r blychau duon eu hunain wedi eu gwneud o groen anifeiliaid kosher. Er bod mudiadau addysgol yn cynhyrchu copïau o tephilin i'w harddangos, dylid nodi fod rhai go iawn yn cael eu trafod â pharch mawr.

Mezuzah

Mae'r adnodau o Deuteronomium yn cael eu cynnwys hefyd ar y membrwn sy'n cael ei osod ar bostyn drws tŷ Iddewig (a weithiau ym mhob stafell fyw), gan ufuddhau i orchymyn y darnau eu hunain i osod atgof o'r Torah ar byst y drws. *Mezuzot* (unigol, *mezuzah*) yw enw'r rhain. Mae'r mezuzah'n cael ei osod mewn casyn fel arfer cyn ei roi, yn gogwyddo i fyny tuag at y drws, ar bostyn llaw dde'r drws. Does dim enghraifft well na hon o'r ddolen gyswilt anwahanadwy rhwng gweddio ac astudio'r Torah, a phwysigrwydd deublyg y cartref a'r synagog wrth ufuddhau i'r mitzvot.

y synagog

Yn y bennod hon byddwch yn dysgu:

- am wreiddiau a dibenion y synagog
- ynglŷn â darllen y Torah
- ynglŷn â swyddogaeth y Rabbi.

Termau a dibenion

Mae adeilad y synagog yn cyflawni sawl diben: mae'n lle i astudio a gweddio, ac yn fan cyfarfod cyffredinol i'r gymuned. Efallai y bydd yn cynnwys *Bet Midrash* (tŷ astudio) er bod hwnnw, fel y gwelwch ym mhennod 8, yn aml mewn adeilad ar wahân. Trafodwyd y synagog fel *Bet Tefillah* ('tŷ gweddio') ym mhennod 10. Rhaid pwysleisio eto fod Iddewon yn gweddio'n breifat yn ogystal ag yn gymunedol, ac nad oes rhaid bod â synagog i allu gweddio'n gymunedol. Dydy hi ddim yn glir o gwbl pryd a ble y daeth y synagog yn gysylltiedig â gweddio. Mae'r gair Groeg ar gyfer '[tŷ] gweddio', *proseuche*, yn ymddangos mewn arysgrifau o safleoedd Eifftaidd yn y drydedd ganrif COG, ond tan flynyddoedd olaf y ganrif gyntaf COG, does yr un ffynhonnell yn dweud fod adeilad penodol ar gyfer gweddio gan yr Iddewon ym Mhalesteina na Babilon.

Bet Knesset ('tŷ'r cynulliad') yw'r prif enw ar synagog (ac eithio'r term mwy tafodieithol, *shul* (ysgol), y gair sy'n cael ei ddefnyddio gan amlaf). Efallai mai dyma'r disgrifiad gorau o wir natur a phwysigrwydd y synagog, ac mae hefyd yn egluro gwreiddiau'r synagog fel sefydliad. Mae *Knesset* yn golygu 'cynulliad' (dyna enw Senedd Israel) a felly, ystyr *Bet Ha-Knesset* yw 'y man cyfarfod' ('Ha' yw'r fannod mewn Hebraeg). Mae tinc ffurfiol i'r modd y defnyddir 'Bet Knesset' yn y Talmud, sy'n awgrymu fod y cynulliad yn achlysur pwysig, yn hytrach na phobl yn digwydd cwrdd yn anffurfiol. Dydy hi ddim yn glir sut y datblygodd y synagog fel 'canolfan gymuned', ond mae'r term *Bet Knesset* yn disgrifio cwmpas llawn yr holl weithgareddau sy'n digwydd yn y synagog fodern. Mae pobl yn ymgynnull i astudio, i weddio, i ddarllen y Torah, i gynnal cyfarfodydd, clybiau, achlysuron cymdeithasol, a dathliadau. Ni wahaniaethir rhwng gweithgareddau crefyddol a rhai seciwlar. Y synagog yw cartref pob gweithgaredd.

Gwreiddiau'r synagog

Er mai ychydig iawn a wŷr neb am y synagog cyn y ganrif gyntaf COG, mae'r dystiolaeth yn awgrymu mai rhagflaenydd y synagog oedd man cynnull lleol Iddewon Groeg eu hiaith y Diaspora. Fel cymuned Iddewig, byddai'r rhain yn cwrdd i gynnal amrywiaeth o weithgareddau cymdeithasol a chrefyddol, yn cynnwys astudio, gweddio, darllen yr Ysgrythur, a defodau traddodiadol Iddewig eraill. Mae'n ddiddorol nad yw'r arysgrif gynharaf o Balesteina sy'n cyfeirio at fan cyfarfod o'r fath yn sôn

am weddio cymunedol. (Mae Theodotus, o'r ganrif gyntaf OG mae'n debyg, yn cael ei alw'n 'archisynagog', 'rheolwr y synagog' ac mae'r adeilad yn lle ar gyfer darllen y Torah, dysgu'r gorchmynion, a chroesawu ymwelwyr.) Efallai mai'r eglurhad yw bod yr Iddewon yn addoli yn y Deml, ac nad oedd angen nac awydd creu 'man cysegredig' arall. Mae'n siwr fod ganddyn nhw adeiladau cymunedol (a lleoliadau awyr-agored) lle bydden nhw'n gweddio'n gyson, ond doedd gan y llefydd hyn ddim o'r nodweddion cysegredig a fyddai'n dod yn rhan hanfodol o synagog. Felly, mae'n edrych fel pe bai'r term *knesset* yn cyfateb yn union i ystyr wreiddiol y gair Groeg *synagoge*, sef cynulliad neu gynulleidfa ffurfiol yn hytrach nag adeilad. Efallai fod hynny'n egluro pam nad oedd math safonol o adeilad yn bod yn y canrifoedd Cristnogol cynnar. Yn wir, does dim llawer o reolau ynglŷn â ffurf adeilad synagog i'r dydd heddiw. Mae unrhyw ofynion penodol yn ymwneud â'r Torah a'r darlenniadau ohono (gweler isod).

Mae rhai pobl yn olrhain gwreiddiau'r synagog yn ôl i'r gaethglud yn y chweched ganrif COG. Heb Deml, efallai fod yr Iddewon wedi ymgynnull i weddio. Mae'r dystiolaeth destunol, fodd bynnag, yn awgrymu fod yr Iddewon wedi ymgynnull yn Israel ar ôl dychwelyd o'r gaethglud, ac wedi i'r Deml gael ei hadfer, i wrando ar y Torah'n cael ei ddarllen (Nehemiah 8: 7-8). Mae un traddodiad yn dweud mai Esra ddechreuodd gynnal darlenniadau fore Llun a bore lau pan fyddai llawer o bobl yn dod i'r farchnad ac i'r llysoedd barn (Talmud Jerwsalem 4: 1) ac ar brynawn y Saboth pan fyddai siopwyr yn gallu dod (Bava Kama 82a). (Mae cyfeiriadau sy'n dyddio darllen y Torah'n gyhoeddus ar rai achlysuron arbennig i oes Moses, Josua a Josiah yn Deuteronomium 31: 10 ymlaen; Josua 8: 34; a 2 Brenhinoedd 23: 2.) Erbyn y ganrif gyntaf OG, mae'r athronydd Philo a'r hanesydd Josephus ill dau yn sôn am ddarlenniadau cyson ar y Saboth fel arfer cyffredin. Mae digon o dystiolaeth i bwysigrwydd y synagog fel lle i ddarllen yr Ysgrythurau yn y Testament Newydd (e.e. mae Luc 4: 16-20 yn cyfeirio'n benodol at ddarllen ac mae Marc 6: 2; Mathew 12: 9; Actau 18: 4 yn cyfeirio at addysgu); dim ond un darn o'r Testament Newydd (Mathew 6: 5) sy'n sôn am weddio yn y synagog, a gallai hynny fod yn gyfeiriad at 'gynulliad' yn hytrach nag adeilad.

Ar ôl dinistr yr Ail Deml yn 70 OG, gallwyd dod â'r holl wahanol ffyrdd o addoli ynghyd mewn adeiladau penodol ym Mhalesteina, ac mae llawer mwy o sôn am y synagog o'r dyddiad hwn ymlaen. (Mae'r Talmud yn sôn am gymaint â 394 o 'dai



cynnull' yn Jerwsalem ei hun erbyn 70 OG, ond mae'n debyg mai dim ond wedi'r dyddiad hwn y sefydlwyd nifer arwyddocaol o 'synagogau' yn yr ystyr o adeiladau y byddai pobl yn addoli ynddyn nhw.) Beth sydd gennym yn awr yw cyfuniad o dŷ gweddi, tŷ astudio, a thŷ cwrdd, sy'n ein hatgoffa am wreiddiau amrywiol a dyrys y synagog fel sefydliad. Ond beth sy'n ganolog i'r cwbl yw'r Torah.

Darllen y Torah

Aron Kodesh

Mae'n rhaid i synagog – boed yn adeilad mawr, addurniedig neu'n stafell fechan, ddiaddurn – gynnwys dau beth: arch i gadw sgroliau'r Torah ynddi, a desg lle bydd pobl yn eu darllen. Yn ôl Exodus 25: 10-16 roedd y Tabernacl a godwyd yn yr anialwch yn cynnwys y ddwy lechen o garreg a roddwyd i Moses ar fynydd Sinai, mewn blwch pren wedi ei orchuddio ag aur, o'r enw'r *aron kodesh* ('arch sanctaidd'). Diflannodd yr arch pan ddinistriwyd Teml Solomon. Yn oes y Talmud, cist fechan y gellid ei chario oedd yr arch yma ond ers y canol oesoedd, mae wedi bod ar ffurf cwpwrdd ar wal ddwyreiniol y synagog. (Enw'r Iddewon Seffardi am hyn yw *beichal* ('cysegrfa') yn hytrach nag aron kodesh.) Dyma lle mae sgroliau'r Torah'n cael eu cadw, a dyma ganolbwynt y synagog. Fel arfer mae llen o frodwaith hardd o flaen yr arch neu yn union y tu fewn i'r drysau. (Mae rhai'n credu fod hyn yn atgof o'r llen o flaen rhan fewnol y Deml, y Cysegr Sancteiddiolaf.) Mae synagog Gorllewin Llundain yn enwog am ei rhwyllwaith agored sy'n golygu y gall pobl weld y sgroliau drwy gydol y gwasanaeth. Ond fel arfer, dydy'r gynulleidfa ddim yn gweld yr olygfa drawiadol yma tan yn union cyn i'r Torah gael ei gymryd allan i'w ddarllen.

Uwchlaw'r arch yn aml mae dwy lechen sy'n cynrychioli'r Deg Gorchymyn, gyda dau air cyntaf pob gorchymyn arnyn nhw (fel arfer gyda'r llythrennau Hebraeg sy'n sillafu enw Duw, a geir yn Exodus 3:14, heb eu sgrifennu'n llawn, o barch). Weithiau maen nhw'n cynnwys dywediadau eraill fel 'Boed i ti wybod ger bron pwy yr wyt yn sefyll'. Mae *ner tamid* ('golau tragwyddol') yno hefyd, sy'n symbol o'r presenoldeb dwyfol. Mae'r rhan fwyaf o synagogau modern yn defnyddio golau trydan, ond mae un neu ddwy (yn cynnwys un Gorllewin Llundain) yn dal i ddefnyddio'r lamp olew draddodiadol, sy'n cyfateb i'r lamp a oedd yn llogi'n barhaus yn y Tabernacl (Exodus 27: 20-1), a roddodd ei henw i'r ner tamid. Yn y synagog, mae'n ymddangos mai peth



Tu fewn baróc hardd Synagog Goffa Chatham a symrlwydd y synagog yng Nghanolfan Sternberg

gymharol ddiweddar yn ei hanes, ac mae'r rhaniadau yn aml yn torri ar draws ystyr darn neilltuol.) Roedd Iddewon ym Mhalestina yn arfer ymestyn y darlenniad dros dair blynedd, ac fe fabwysiadwyd y cylch tair-blynedd yma gan gymunedau Diwygiedig, oherwydd fod darlenniad byrrach yn helpu pobl i ganolbwyntio'n well, a rhoi mwy o urddas i'r addoli. Maen nhw hefyd yn galw sylw at y ffaith fod y Talmud yn cyfeirio at system dair-blynedd yn yr hen Israel, cyn y cyfnod Babilonaidd (Megillah 29b). Dydy'r calendr litwrgaidd Diwygiedig presennol ddim yn cynnwys y Torah cyfan, yn y gred nad yw rhai darnau (fel achau, fel yn Genesis 36, a rhestri o afiechydon y croen fel yn Lefiticus 13) yn addas i'w darllen yn gyhoeddus. Mae'r rhan fwyaf ohono'n cael ei gynnwys drwy rannu pob *parashah* ('cyfran wythnosol', lluosog *parashiyot* – mae'r geiriau'n cael eu defnyddio'n gyfnewidiol gyda sidra a sidrot) yn y cylch blynyddol yn dair rhan, a darllen o bob rhan unwaith bob tair blynedd. Mae hyn yn sicrhau cysylltiad â'r hyn sy'n cael ei ddarllen bob wythnos yn holl synagogau eraill y byd. (O bryd i'w gilydd, mae'r amser ychwanegol sy'n cael ei gymryd i ddathlu gwyliu mewn Uniongrededd y tu allan o Israel mewn cadw â rhai'r yw eu darlenniadau nhw o'r Torah mewn cadw â rhai'r synagogau Diwygiedig, er enghraifft, pan fydd gŵyl Simchat Torah yn digwydd ddiwrnod yn hwyrach - gweler penodau 13 ac 14.) Ym mhob cynulleidfia, mae'r cylch litwrgaidd yn dod i ben pan fydd rhan olaf Deuteronomium a rhan gyntaf Genesis yn cael eu darllen ar ŵyl Simchat Torah (gweler pennod 14).

Haftarah

Ar Sabothau, dyddiau gŵyl, dyddiau ymryd ac yng ngwasanaeth y prynhawn ar Ddydd y Cymod, mae darlenniad o'r Proffwyd yn dilyn y darlenniad o'r Torah (gweler pennod 2). Does neb yn gwybod pryd y dechreuwyd gwneud hyn, er bod darn o'r Mishnah (Megillah 4: 1) yn dangos mor hynafol yw'r arfer. Gan ei fod yn cwblhau neu gloi'r Torah, enw'r darlenniad yma yw *haftarah* ('diweddsglo', lluosog *haftarot*). Mae'r *haftarah*'n gysylltiedig â'r ŵyl neu'r ymryd neilltuol (gweler enghreifftiau ym mhenodau 13-15) neu'n cynnwys neges yn gysylltiedig â sidra'r diwrnod hwnnw. Felly, yn y cylch blynyddool, mae Micha 5: 5 i 6: 8 yn cynnwys cyfeiriad at Balak, testun gyntaf (ac enw) y sidra yn Numeri 22: 2 i 25: 9, ac mae ysbwyd Josua 22: 1-24 yn cyfateb i'r ysbwyd gafodd eu danfon allan gan Moses yn sidra Numeri 13. Wrth reswm, mae'r cylch tair-blynedd, gydag adran o'r Proffwyd ar gyfer pob adran o'r

cymharol ddiweddar yw hyn; does dim cyfeiriad at ner tamid mewn synagog cyn y ddeunawfed ganrif. Mae goleuni yn hen, hen symbol o bresenoldeb Duw, fel yn y Tabernacl ac yn ddiwedddarch yn y Deml lle'r oedd *menorah* ('canhwyllbren'), yn ôl y disgrifiad yn Exodus 25: 31-40; 37: 17-24. Mae gan rai synagogau menorah (un saith-cangen safonol neu'r un naw-cangen ar gyfer Chanukah) ar y llaw dde i'r arch hefyd.

Y bimah

Canolbwynt arall y gweithgareddau yw'r *bimah* ('llwyfan') o'r lle mae'r Torah'n cael ei ddarllen. Gall hwn fod yn llwyfan eithaf mawr neu'n ddim mwy na desg ddarllen. Mewn synagogau Uniongred mae yn y canol, fel arfer. Dyna'r safle mae Maimonides yn ei argymhell ond mae'r *Kesef Mishneh*, esboniad ar ei gôd, yn dweud mai'r unig reswm am hynny oedd ei gwneud hi'n haws i bobl glywed, ac y byddai'n iawn gosod y bimah ar yr ochr mewn synagogau llai. (Mae llenyddiaeth ddiweddarach yn anghytuno.) Un o newidiadau'r mudiad Diwygiedig ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg oedd gosod y bimah yn syth o flaen yr arch, gyda seddau wedi eu gosod fel bod pawb yn ei wynebu. Mewn synagogau Uniongred mae menywod bob amser yn eistedd ar wahân i'r dynion, naill ai mewn oriel neu y tu ôl i sgrîn, gan fod y Talmud yn dweud na ddylai dim darfu ar ddyletswydd dynion i weddio.

Mae cyrddau gweddi yn y synagog bob dydd, gyda'r nos, yn y bore, ac yn y prynhawn. Rhaid bod â minyan (deg dyn, yn draddodiadol) ar gyfer rhai o'r gweddïau a ddisgrifir ym mhenod 10. Mae dynion Uniongred a llawer o Iddewon eraill yn ystyried ei bod yn ddyletswydd arnyn nhw i adrodd y gweddïau eraill ar eu pen eu hunain os nad oes digon yn bresennol i gynnal gwasanaeth synagog. Ar y Saboth a dyddiau gŵyl, y darlenniad yw canolbwynt y gwasanaeth, ynghyd â'r seremoni sy'n arwain at y foment pan fydd sgrôl y Torah'n cael ei chymryd allan o'r aron kodesh.

Darnau o'r Torah

Bob bore Saboth, mae un darn o'r Torah'n cael ei ddarllen. Mae'r *sidra* ('trefn' neu 'adran', lluosog *sidrot*) yn hwy os yw'r synagog yn un Uniongred. Mae cymunedau Uniongred yn dilyn yr hen arfer Babilonaidd o ddarllen y Torah cyfan mewn blwyddyn ac felly mae pob wythnos yn cynnwys sawl pennod a darnau o benodau. (Cafodd y Beibl ei rannu'n benodau yn

Mae sifrei Torah Ashkenazi yn cael eu rhoio'n dynn ac mae'r ddau roliwr yn cael eu rhoi at eu gilydd a'u clymu â rhwymyn lliain. Maen nhw'n cael eu lapio wedyn mewn mantell sidan neu felfed gydag addurn arian yn crogi arni, sydd yn aml wedi ei haddurno â symbolau o fawredd y Torah fel blodau neu goronau. Mae'r addurn yn cynrychioli llurig yr Archoffeiriad yn ystod oes y Deml. Mae coron arall yn aml yn addurno brig y sefer Ashkenazi a Seffardi. O dan y goron weithiau, yn dal y polion, mae *rimmonim* ('pomgranadau'), gyda chlychau'n crogi oddi wrthyn nhw sy'n canu wrth i'r sefer gael ei gario yn ôl ac ymlaen i'r bimah. Wrth i'r orymdaith symud o gwmpas y gynulleidfa wedi'r darlenniad, mae'r sain a'r olygfa yn ei gwneud hi'n gwbl glir i bawb beth yw canolbwynt y gwasanaeth. Wrth y bimah, mae'r sefer yn cael ei ddal yn uchel i bawb gael ei weld, ac yna'n mae'r symbolau'n cael eu tynnu ymaith. Mae sefer Ashkenazi yn cael ei osod i orwedd yn wastad, ac mae'r darlennydd yn cadw ei le (neu, mewn synagog Flaengar, ei lle) wrth ddarllen â *yad* ('llaw'), pwyntydd arian neu bres, i sicrhau na fydd llaw'r darlennydd yn cyffwrdd â'r testun yn uniongyrchol.

laith a cherddoriaeth

Mewn synagog Uniongred, mae'r Torah a'r Proffwydi'n cael ei llafarganu yn yr Hebraeg, gan rywun sydd wedi ei hyfforddi'n arbennig neu gan rywun sy'n dathlu achlysur arbennig, fel y Saboth cyn ei briodas, neu ar ddiwedd cyfnod o alaru am berthynas agos. Mae'r sidra mor hir nes ei fod wedi ei rannu'n adrannau, a bydd o leiaf saith o wahanol bobl yn cael eu galw i'r bimah naill ai i ddarllen neu i adrodd y fendith cyn y darlenniad neu ar ei ôl, neu i dystio i'r darlenniad a'i ddilyn. Yr enw ar yr arfer yma yw *aliyah* ('esgyniad'). Dim ond un person sy'n cael aliyah fel arfer mewn synagog Ddiwygiedig, ac mae'r sidra'n cael ei ddarllen yn hytrach na'i llafarganu. Yn union cyn yr Hebraeg, neu yn union ar ôl hynny, bydd cyfieithad yn cael ei roi yn yr iaith frodorol (fesul adnod mewn rhai cymunedau). Y brif nod yw gwneud yr ystyr yn glir ac yn ddealladwy i bobl tra'n cadw at iaith hynafol y Torah. Mae'r haftarah'n cael ei ddarllen yn yr iaith frodorol fel arfer mewn synagogau Diwygiedig, a dim ond y fendith cyn y darlenniad neu ar ei ôl sy'n cael ei dweud neu ei chanu mewn Hebraeg.

Torah, yn cynnwys nifer fwy o haftarot. (Mae hyn hefyd yn egluro pam mae'r dewis o haftarot yn y litwrgi Seffardaid, sy'n deillio o Iddewon Sbaen, weithiau'n wahanol i rai'r Ashkenazim, sy'n dilyn y litwrgi Almaenaidd.) Mae'r cylch yma yn cynnwys nid yn unig y Proffwydi ond hefyd ddetholiad ehangach o'r Ysgrifau (gweler pennod 2) na'r hyn sy'n cael ei ddarllen yn gyhoeddus yn draddodiadol, fel Job a Daniel. Yn y fan yma eto, mae Diwygwyr yn hawlio eu bod yn dilyn arfer y Talmud (Shabbat 116b), ond un datblygiad cwbl newydd yw cynnwys darn o'r Apocryffa (gweler pennod 2), yn enwedig 1 Macabeaid 2: 1-28 fel yr haftarah ar gyfer yr ail Saboth yn ystod gŵyl Chanukah yn hytrach na'r darn traddodiadol, sef 1 Brenhinoedd 7: 40-50.

Sefer Torah

Yng ngwasanaeth y synagog, mae'r haftarah yn cael ei ddarllen o lyfr printiedig, ond mae'r sidra bob amser yn cael ei ddarllen o sgrôl neu *sefer* (lluosog *sifrei*). Wedi agor drysau'r arch, mae'r *sefer Torah* yn cael ei godi'n seremonïol o'r arch a'i gario mewn gorymdaith yn syth at y bimah, drwy ganol y gynulleidfa (mewn synagogau sydd â'r bimah yn y canol). Bydd addolwyr yn pwyso ymlaen i gyffwrdd ag ef â thaselau eu tallit (siôl weddi) wrth iddo fynd heibio. Mae'r parch yma yn nodweddiadol o bopeth ynglŷn â'r sefer Torah, y ffordd mae wedi cael ei sgrifennu, ei addurno, ei drafod a'i ddarllen.

Sgrôl femrwn yw'r Torah â phum llyfr cyntaf y Beibl wedi eu sgrifennu arni. Mae'r geiriau wedi eu copio yn ofalus â llaw mewn inc arbennig gan *sofer* ('ysgrifennydd') proffesiynol. Dim ond cytseiniaid sydd yn yr Hebraeg. Does dim llafarnodi, sef rhoi marciau sy'n dynodi pa lafariad sydd mewn gair islaw'r cytseiniaid – a geir mewn fersiwn brintiedig (*chumash*) – dim atalnodi, a dim arwyddion cerddorol uwchlaw'r llythrennau i arwain y darlennydd pan fydd yn llafarganu. Mae felly'n anodd iawn i'w darllen ac mae llawer o bobl a hoffai dderbyn yr anrhydedd o gael eu galw i ddarllen yn methu gwneud am nad yw eu Hebraeg yn ddigon da. Mewn cymunedau Seffardi, mae'r sefer Torah yn gorffwys ar ddau roliwr o fewn casyn pren neu fetel trwm sydd wedi ei gerfio neu ei engrafu ac wedi ei addurno â metel neu ledr. Mae dau hanner y casyn ar golynnau ac mae'n agor fel llyfr i ddangos y sgrôl. Rhaid troi polion y ddau rolyn i ddod o hyd i'r darn cywir, ac mae'r sgrôl yn cael ei gosod ar stondin ar y bimah i'w darllen.

Er fod unrhyw berson cymwys sy'n gallu llafarganu'r Torah (ac arwain y gweddio) yn cael gwneud, mae synagogau Uniongred yn aml yn cyflogi cantor profesiynol, *chazan* (lluosog *chazanim*). Mewn oes gynharach, swyddog gweinyddol oedd y chazan oedd yn cyflawni anghenion ymarferol y gymuned. Ei brif waith heddiw yw arwain y rhan fwyaf o'r gwasanaeth. Bydd y chazan wedi derbyn hyfforddiant maith nid yn unig fel canwr, ond hefyd mewn *chazanutt* (cerddoriaeth litwrgaidd Iddewig). Yn UDA, er enghraifft, yr ysgol gyntaf ar gyfer hyfforddi chazanim oedd Coleg Cerddoriaeth Gysegredig yr Undeb Hebraidd a sefydlwyd ym 1948. Mae chazanim Prydeinig yn hyfforddi yn Ysgol Astudiaethau Iddewig Llundain.

Mae cryn bryder ynglŷn â dyfodol yr holl draddodiad cerddorol a'r hyn mae'n gallu ei gynnal i addoli Iddewig. All cymunedau bychain ddim fforddion cyflogi chazan, ac mae rhai eraill yn dewis gwneud hebddo. Ychydig iawn o synagogau Diwygiedig, hyd yn oed y rhai mawr, sy'n cyflogi cantor, i raddau oherwydd fod mwy o'u gwasanaethau yn yr iaith frodorol, heb fod angen y sgiliau arbenigol. Mae gwasanaethau Diwygiedig yn fyrrach hefyd, ac weithiau maen nhw'n defnyddio côr (cymysg, bob amser) ac organ (wedi ei lleoli mewn oriel, fel organ 1870 Synagog Gorllewin Llundain, neu tu ôl i'r arch) i arwain y gân. Hyd yn oed heb y rhain mae'r mudiad Diwygiedig yn pwysleisio cyfrangaeth y gynulleidfa yn hytrach nag unigolion, a'r rabbi, yn hytrach na chazan, sy'n arwain lle bo angen.

Roedd cantorion a cherddorion yn Nheml Solomon (e.e. 1 Cronicl 25) ac offerynnau cerddorol (e.e. Salm 92: 2-4). Ar ôl dinistr y Deml, daeth rheolau newydd i rym. Mae tair prif ystyriaeth: ymatel wrth alaru am golli'r Deml; penderfyniad i osgoi ceisio ailgreu'r Deml yn y synagog; a gwaharddiad ar chwarae offerynnau cerddorol ar y Saboth neu ar ddyddiau gŵyl (gweler pennod 12). Mae gan rai synagogau Uniongred organ, ar gyfer priodasau'n bennaf. Does dim o'r cyfyngiadau yma yn y mudiad Diwygiedig, gan fod sylfaenwyr y mudiad yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg wedi gwrthwynebu'r pwyslais ar y Deml. (Yn wir, 'templau' mae pobl yn galw synagogau Diwygiedig yn UDA yn aml.)

Mewn synagogau heb offerynnau, mae'r pwyslais i gyf ar yr alaw leisiol. Mae rhai'n credu fod ffurf symlaf a phuraf hyn yn dyddio o oes Esra o leiaf ac, o bosib, o gyfnod y Deml gyntaf. Mae'r undod rhyfeddol rhwng tri phrif draddodiad cerddoriaeth

litwrgaidd Iddewig – Ashkenazi, Sefardi, a Dwyreiniol – yn awgrymu'n gryf eu bod yn tarddu o'r un gwraidd, sef llafarganu'r Deml. Yn ddiddorol iawn, mae rhai pobl (er enghraifft, yr Athro Yahezkiel Brown ym Mhrifysgol Tel Aviv) wedi cymharu llafarganu Iddewig yr Yemen â phlaenganu Gregoraidd Cristnogol. Y nodwedd gyffredin yw ymadroddion byr wedi eu cyfuno mewn dilyniant rhagordeiniedig i ffurfio adroddgan estynedig. Mae'r ymadroddion yn cael eu dynodi gan symbolau uwchlaw neu islaw'r testun Hebraeg mewn system ragnodi o'r enw '*cantillation*' yn Saesneg. (Mae gwahanol ffurfiau o lafarganu ar gyfer y Torah ac ar gyfer yr haftarah.) Mae'r system a gafodd ei pherffeithio yn y nawfed ganrif OG yn dal i gael ei defnyddio heddiw. Blodeuodd y 'santiau gosod' hyn yn Oes Aur Iddewon Sbaen (900-1400 OG) a phan gafodd Iddewon Sefardi eu hel o'r wlad yn niwedd y bymthegfed ganrif, fe aethon nhw â'u cerddoriaeth gyda nhw i wledydd o gwmpas Môr y Canoldir, fel Morocco. Dablygodd swydd y chazan yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dim ond gyda datblygiad y mudiad Diwygiedig yr enillodd yr organ ei phlwyf mewn addoliad Iddewig. Datblygiad modern hefyd yw'r côr pedwar-llais mewn cerddoriaeth litwrgaidd Iddewig.

Arweinwyr crefyddol

Gwas cyflog y synagog yw'r chazan. Gan ei fod wedi ei drwytho yn y Beibl, y Talmud, a'r llyfr gweddï, mae'n aml yn cael ei alw wrth y teitl 'Parchedig'. Gan fod y chazan yn gwneud gwaith bugeiliol ac yn awdurdod cyffredinol ar faterion crefyddol yn y gymuned, mae'n cynnig arweiniad crefyddol. Mae'n ddyletswydd arno (neu arni, mewn cymunedau Blaengar) i arwain y gymuned, yn enwedig wrth addoli.

Y Rabbi

Gwas cyflog arall y synagog, a phrif arweinydd crefyddol Iddewiaeth, yw'r rabbi. Tra bod disgwyl i'r chazan wybod y Torah, a sut i'w lafarganu, rhaid i'r rabbi fod yn arbenigwr ar bopeth yn ymwneud ag ef. Lle canolog y Torah mewn Iddewiaeth sy'n gwneud y rabbi mor bwysig, a dim ond i'r graddau mae'n astudio ac yn dysgu'r Torah y mae'n cadw'r statws hwnnw. Dim ond athrawon y Mishnah oedd yn arfer cael eu galw'n *rabbi* ('fy meistr'). Ond nid dehongli'r Torah oedd eu gwaith cyflog, ond galwedigaethau digon cyffredin fel gwneud peyll neu drwsio esgidiau. Roedd gan lawer o rabiniaid yr oesoedd canol swyddi

oedd yn talu'n well, fel meddygon neu fasnachwyr. Ond, boed dlawd neu gyfoethog, roedd parch ac awdurdod y rabbi yn deillio'n llwyr o'i wybodaeth o'r Torah a'i allu i ddyfynnu penderfyniadau ohono i ateb anghenion ymarferol Iddewon.

Gwyddom fod gwrthdaro yn nwytrain Ewrop yn y ddeunawfed ganrif rhwng arweinwyr rabbinaidd a rhai carismatig (gweler pennod 4). Mae Iddewiaeth yn amheus bob amser o unrhyw un nad yw ei arweiniad ysbrydol wedi ei seilio ar astudiaeth drylwyr o'r Torah. Nid fod pobl yn meddwl fod carisma, tosturi, a'r holl ansoddau eraill sydd eu hangen ar rabbi modern yn ddiwbys neu'n anghymharus â gwybodaeth arbenigol am y Torah, ond y ffaith syml amdani yw na fyddai Iddewiaeth (fel y math o grefydd mae'r rhan fwyaf o bobl yn meddwl amdani) yn bod heb y Torah. Nid math o weithiwr cymdeithasol aruchel mo rabbi (er ei bod yn anodd dychmygu sut y gallai rabbi heb sgiliau bugeiliol ateb anghenion y gymuned), na dehonglydd llawn dychymyg (er y gallai dychymyg fod yn ddawn werthfawr) ond dyn (neu fenyw) sydd wedi ei hyfforddi i allu arwain cymuned lle mae'r Torah'n cael ei ddarllen, ei astudio, a'i fyw. Mae'r bregeth yng ngwasanaeth y synagog yn ffordd gymharol newydd o wneud hyn, er y ceid pregethwyr teithiol yn y gorffennol a fyddai'n esbonio testunau beiblaidd neu rabbinaidd. Mae gwahaniaeth barn o fewn Iddewiaeth am werth y gair llafar o ran hyfforddi ac ysbrydoli mewn oes sy'n cael ei rheoli fwyfwy gan ddelweddau gweledol a ffyrdd cryno o gyfathrebu. Ond os oes rhywun yn mynd i allu gwneud datguddiad dwyfol yn berthnasol i'r cyflwr dynol, y rabbi Iddewig yw hwnnw neu honno, gan mai dyma orchwyl hynafol a pharhaus y grefydd hon.

Mewn synagogau Blaengar, mae hyd yn oed mwy o bwyslais ar y bregeth, ac mae'r rabbi yn debyg o arwain gweddill y gwasanaeth hefyd. Mae'r ffaith fod anawsterau personol difrifol yn gallu codi mewn unrhyw gynulleidfa, a bod angen medrau i ymdrin â nhw, wedi peri i lawer o rabbiniaid Diwygiedig i hyfforddi ymhellach mewn seicotherapi neu fathau eraill o gyngori. O ran arweiniad ar faterion moesol a defodol, y rabbi yw'r arbenigwr ysbrydol o hyd, a bydd rhai rabbiniaid yn casglu enghraifftiau o gwestiynau ac atebion a'u cyhoeddi ar ffurf responsa'r mudiad Diwygiedig. Mae chwarae rhan mewn achlysuron cymdeithasol a bod yn aelod o gyngor y synagog yn rhan o waith rabbi Diwygiedig hefyd, ond ni fyddai disgwyl i rabbi Uniongred wneud hynny. Byddai'r gymuned ehangach hefyd yn gweld y rabbi Diwygiedig fel rhywun sy'n cynrychioli credoau ac arfer Iddewig ar bwyllgorau lleol. Er bod model yr offeiriad Cristnogol yn amlwg

wedi dylanwadu ar ganfyddiad y mudiad Diwygiedig, mae'r hyfforddiant maith mewn coleg rabbinaidd yn dal i ganolbwyntio ar y Torah. Y coleg sydd, yn pen draw, yn rhoi i'r rabbi ei *smichah* ('ordeiniad') sy'n sail i'w awdurdod. Er nad yw'n cael ei dderbyn gan yr awdurdodau Uniongred, mae smichah Diwygiedig o Goleg Leo Baeck yn cael ei gydnabod ledled y byd gan gymunedau Ceidwadol, Rhyddfrydol a Diwygiedig eraill. Ar faterion o arfer, fel faint o'r gwasanaeth ddylai fod mewn Hebraeg, mae pob rabbi'n annibynnol, ac mae llawer mwy o wahaniaethau rhwng synagogau Diwygiedig na rhwng synagogau Uniongred. Ar faterion o statws, y Bet Din sy'n penderfynu bob amser (gweler pennod 9) a rhaid i rabbiniaid Diwygiedig ufuddhau i rai penderfyniadau am eu bod yn aelodau o Gynulliad y Rabbinaid. Ym Mhrydain, er enghraifft, chân nhw ddim gweinyddu mewn priodas gymysg (gweler pennod 9).

Y Prif Rabbi

Mae awdurdod canolog y Synagog Unedig ym Mhrydain yn deillio o swydd y Prif Rabbi. Mae'r Prif Rabbi'n cael ei benodi gan y llywodraeth fel llefarydd dros Iddewiaeth ym Mhrydain, i gynrychioli pob cangen o'r grefydd. Neu dyna'r bwriad, o leiaf, ond mae'r swyddogaeth yma'n mynd yn fwyfwy ansicr. Mae'r ffrase a fu dros ddatganiad y Rabbi Jonathan Sacks ym 1995 fod unrhyw un sy'n methu derbyn y rhoddwyd y Torah yn ei gyfanrwydd gan Dduw i Moses 'wedi torri pob cysylltiad â ffyrdd ei gyndeidiau' yn dangos yr anawsterau. Cafodd Dr Sacks addysg a hyfforddiant rabbi Uniongred modern. Un rhan o'i gyfyng-gyngor yw fod llawer o'i rabbiniaid wedi eu hysbydoli gan Uniongrededd asgell-dde. I'r chwith i'r Synagog Unedig, mae rabbiniaid Masorti (Ceidwadol), Diwygiedig a Rhyddfrydol yn methu'n lân â derbyn ei ddiffiniad ef o Iddewiaeth. Mae agwedd Dr Sacks yn diarddel o leiaf 25 y cant (ac o bosib llawer mwy) o Iddewon Prydain. Fel y dywedodd y rabbi Rhyddfrydol, David Goldberg: 'Fel mae pethau'n mynd, mae'n bosibl mai hwn fydd y Prif Rabbi olaf i gael ei dderbyn fel llefarydd mewn enw ar ran holl Iddewon Prydain' (*Independent*, 14 Ionawr 1995).

Ychydig iawn o wledydd eraill sydd â swydd Prif Rabbi. Daeth un Israel i fod yn ystod dyddiau'r Mandad Prydeinig, pan oedd awdurdod y mandad yn ystyried y gymdeithas fel un grefyddol yn hytrach nag endid gwleidyddol ac o ganlyniad, dim ond gydag awdurdod crefyddol roedd yn fodlon siarad. Yn Ffrainc, Gwlad Pwyl a De Affrica, prif ddiben y swydd yw cyfleu safbwynt y gymuned Iddewig wrth yr awdurdodau seciwlar.